# Sut mae prosiect 'Engage to Change' yn gweithio yn ystod argyfwng y coronafeirws

**13 Mai 2020**

## Ynglŷn ag 'Engage to Change'




Mae **'Engage to Change'** yn brosiect sy'n cefnogi pobl ifainc ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yng Nghymru i ddod o hyd i waith am dâl a chadw'r gwaith hwnnw.

Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan grŵp o fudiadau sy'n gweithio gyda'i gilydd. Mae'r rhain yn cael eu galw'n **bartneriaid y prosiect**:

- **Anabledd Dysgu Cymru**
- **Agoriad Cyf.**
- **Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan**
- **Prifysgol Caerdydd**
- **Elite Supported Employment.**

Mae 'Engage to Change' hefyd yn gweithio gyda **'DFN Project SEARCH'** i gefnogi pobl ifainc gael y medrau sydd eu hangen arnyn nhw i gael gwaith am dâl.




# Beth mae 'Engage to Change' wedi bod yn ei wneud ers i argyfwng y coronafeirws ddechrau?



Mae partneriaid y prosiect wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud yn siŵr bod y prosiect yn dal i fynd yn ystod argyfwng y coronafeirws.



Maen nhw'n gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn y canllawiau gan y llywodraeth i gadw pawb yn ddiogel.




Mae partneriaid prosiect 'Engage to Change' yn cyfarfod ar-lein bob wythnos i wneud cynlluniau ar gyfer yr adeg pan fydd argyfwng y coronafeirws drosodd.



# Sut mae 'Engage to Change' yn cadw mewn cysylltiad â phawb?

Mae staff sy'n gweithio ar 'Engage to Change' wedi bod yn cadw cysylltiad â llawer o wahanol bobl:



- Aelodau eraill o staff sy'n gweithio ar y prosiect
- Staff sy'n gweithio mewn mudiadau eraill
- Pobl ifainc sy'n cymryd rhan yn y prosiect
- Teuluoedd a gofalwyr pobl ifainc
- Cyflogwyr.




Mae staff wedi bod yn defnyddio gwahanol ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â phawb:

- E-bost
- Galwadau fideo fel Zoom neu Skype
- Galwadau ffôn.

## Beth mae staff ‘Engage to Change’ yn ei wneud ar y funud?



Mae staff prosiect ‘Engage to Change’ yn dal i weithio’n galed.



Dyma rai o’r pethau maen nhw’n ei wneud:

- Ateb cwestiynau am ‘Engage to Change’.




- Casglu gwybodaeth am bobl ifainc sydd am ymuno â’r prosiect.




- Gwneud asesiadau ar bobl ifainc sy’n ymuno â’r prosiect.



- Rhoi gwybodaeth i bobl ifainc a’u teuluoedd neu eu gofalwyr i’w helpu i ddewis beth sydd arnyn nhw eisiau ei wneud.



- Cefnogi pobl ifainc sydd am gael medrau newydd i’w helpu i ddod o hyd i waith. Fel gwneud cyrsiau neu ymarfer ar gyfer cyfweliadau swyddi.



- Cefnogi pobl ifainc sy’n dal i weithio.




- Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifainc y mae eu swyddi wedi newid ers argyfwng y coronafeirws.




- Gwneud asesiadau peryglon ar gyfer pobl ifainc i ddal ati i weithio. Neu i bobl ifainc ddechrau gweithio.



- Helpu pobl i gael budd-daliadau os oes arnyn nhw eu hangen.



- Rhannu gwybodaeth ynglŷn â gofalu am eich lles tra byddwch chi’n aros gartref.



- Siarad â chyflogwyr a rhoi gwybodaeth iddyn nhw.



- Gweithio gyda phartneriaid y prosiect i edrych ar ffyrdd o gefnogi mwy o bobl ifainc o fis Medi.



- Gwneud **ymchwil** i weld sut y mae'r coronafeirws yn effeithio ar fywydau pobl ag anabledd dysgu neu awtistiaeth yng Nghymru.

> **Ymchwil** yw dod o hyd i wybodaeth am rywbeth. Fel pobl neu'r byd o'n cwmpas.




- Gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu i wneud arolygon sy'n hawdd eu deall.




- Gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ynglŷn â'r coronafeirws yn hawdd ei ddeall.



- Siarad â Llywodraeth Cymru a phobl eraill ynglŷn â gwaith i bobl anabl. Fel gwneud yn siŵr bod cefnogaeth dda i bobl ddod o hyd i waith am dâl a chadw'r gwaith hwnnw.




- Gweld sut mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen ac ysgrifennu adroddiadau.

# Sut i ymuno â phrosiect 'Engage to Change'

Gallwch ymuno â phrosiect 'Engage to Change' o hyd os oes arnoch chi eisiau.



I ymuno â'r prosiect mae'n rhaid i chi:

- fod rhwng 16 a 25 mlwydd oed
- bod ag anabledd dysgu neu awtistiaeth
- byw yng Nghymru
- bod ag eisiau gweithio a chael medrau newydd
- cael cefnogaeth gan deulu neu bobl eraill
- **peidio â** bod mewn gwaith
- **peidio â** bod yn yr ysgol, y coleg neu'n gwneud hyfforddiant.

Os oes arnoch chi eisiau ymuno â'r prosiect ac rydych yn byw yng **Ngogledd Cymru, gogledd Ceredigion neu ogledd Powys** gallwch gysylltu ag **Agoriad Cyf**:

E-bost: e2c@agoriad.org.uk

Ffôn: 01248 361392.

Os oes arnoch chi eisiau ymuno â'r prosiect ac rydych chi'n byw yn **Ne Cymru, de Ceredigion neu dde Powys** gallwch gysylltu ag **'Elite Supported Employment'**:

E-bost: tmoore@elitesea.co.uk

Ffôn: 07943 866 246.



Gallwch gael mwy o wybodaeth am 'Engage to Change' ar ein gwefan www.engagetochange.org.uk.

Gallwch hefyd ein dilyn ar:

- Twitter @Engage_2_Change
- Facebook @engagetochangewales
- YouTube Engage to Change.